

Cronfa Budd Cymunedol Ysgellog Meini prawf ar gyfer y gronfa flynyddol

Trosolwg o'r gronfa:

Mae arian ar gyfer y Gronfa yn dod o fferm wynt Ysgellog. Datblygwyd y fferm wynt gan Airvolution Energy ond bellach mae'n eiddo i Fferm Wynt Ysgellog Cyf.

Mae'r Gronfa a thua £14,000 (y gronfa flynyddol) ar gael bob blwyddyn ar gyfer defnydd cymunedol. Mae un rownd ymgeisio bob blwyddyn.

Bydd y gronfa flynyddol yn galluogi ymgeiswyr i wneud cais am grantiau rhwng £500 a £4,000.

Mae'n rhaid i grwpiau ddangos o fewn eu cais sut y maent yn parchu'r ffaith bod yr ardal yn Gymraeg ei hiaith.

Lleoliadau'r prosiect:

Rhaid i'r holl geisiadau fod wedi'i lleoli o fewn 4km i'r tyrbinau gwynt.

Diben y prosiect:

Bydd blaenoriaeth yn cael ei wneud ar gyfer:

- prosiectau effeithlonrwydd ynni neu ynni adnewyddadwy, megis inswleiddio, bwyleri effeithlon neu osodiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach.
- Hyfforddiant neu prosiectau addysg, yn arbennig hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc ddi-waith o dan 25 oed mlwydd oed.
- Prosiectau ar gyfer plant oedran ysgol neu henoed.
- Unrhyw brosiectau cymunedol eraill er budd trigolion yr ardal leol.

Sefydliadau sy'n gymwys:

Sefydliadau cymwys, all ymgeisio am gyllid yn cynnwys:

- Grwpiau gwirfoddol neu gymunedol, Cyngorau Tref a Chymuned.
- Ysgolion a sefydliadau addysgol.
- Mentrau cymdeithasol (gan gynnwys undebau credyd, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cymdeithasol, mentrau sy'n eiddo i'r gymuned, cwmnïau buddiannau cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu) ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail dim er - elw.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gael cyfansoddiad ysgrifenedig, set o reolau, neu ddogfen lywodraethol a chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, a ddelir yn enw'r sefydliad, i fod yn eu lle cyn gwneud cais am grant.

Mae'n rhaid i grwpiau fod â pholisi iaith Gymraeg yn ei le cyn gwneud cais.

Gwaharddiadau

Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer:

- Sefydliadau masnachol.
- Aelodaeth preifat clybiau a chyfleusterau chwaraeon, oni bai fod aelodaeth agored i'r cyhoedd yn gyffredinol heb gyfyngiad diangen (ee dim aelodaeth gan sefydliadau enwebu).
- Prosiectau sydd ond o fudd i un unigolyn.
- Prosiectau sy'n ysgogi gwrthdaro rhaniad hiliol neu grefyddol neu gasineb, neu sy'n cefnogi ymgyrch neu achos plaid wleidyddol.
- Cyllid ôl-weithredol i brosiectau sydd eisoes wedi eu cwblhau, prun a dalwyd amdanynt neu beidio.
- Gwaith a ystyrir yn gyfrifoldeb statudol, megis gwasanaethau cludiant a raglennwyd, gwaith i briffyrdd cyhoeddus a meysydd parcio cyhoeddus.

Meini prawf dyfarnu:

Y prif feini prawf a ddefnyddir wrth asesu ceisiadau a dderbynnir fydd:

- Manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a fydd yn deillio o'r prosiect.
- Lefel y gefnogaeth gymunedol ac ymrwymiad yn y prosiect.
- Lleoliad y prosiect mewn perthynas â'r tyrbinau.
- Nifer y bobl o fewn yr ardal a nodwyd fydd yn elwa o'r prosiect.

Ystyrir ffactorau eraill hefyd y mae'n rhaid eu dangos yn y cais:

- Gallu'r ymgeisydd i gyflawni'r prosiect.
- Sut fydd y gwaith yn parhau ar ôl cwblhau'r prosiect, hy ei gynaliadwyedd ac etifeddiaeth.
- Gwerth am arian.
- Ystyried defnydd contractwyr lleol lle bynnag y bo'n bosibl.